

MEMORANDWM ESBONIADOL I

Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Iaith Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Alun Davies AC

Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg

15 Rhagfyr 2016

Disgrifiad

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 ('y Rheoliadau') yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r 27 sefydliad canlynol, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r sefydliadau hynny mewn perthynas â'r safonau a bennwyd:

Coleg Ceredigion	Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig;
Coleg Sir Gâr	Prifysgol Abertawe;
Coleg Caerdydd a'r Fro	Prifysgol Aberystwyth;
Coleg Cambria	Prifysgol Bangor;
Coleg y Cymoedd	Prifysgol Caerdydd;
Corff Llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant	Prifysgol Cymru;
Coleg Gŵyr Abertawe	Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant;
Coleg Gwent	Prifysgol De Cymru;
Coleg Penybont	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig;
Coleg Sir Benfro	Prifysgol Glyndŵr;
Grŵp Llandrillo-Menai	Prifysgol Metropolitan Caerdydd;
WEA YMCA CC Cymru	Y Brifysgol Agored;
Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn gwneud safonau'n benodol gymwys i'r 27 sefydliad a enwir uchod. Gosododd Llywodraeth Cymru Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 ar y cyrff uchod ym mis Chwefror 2016. Cafodd y Rheoliadau hynny eu gwrthod gan y Cynulliad diwethaf ar 15 Mawrth 2016.

Newidiadau polisi rhwng gwahanol setiau o Reoliadau

Hyd yma, agwedd Llywodraeth Cymru at baratoi Rheoliadau yw sicrhau fod y safonau sy'n cael eu cynnwys ym mhob set o Reoliadau yn addas ar gyfer grŵp penodol o sefydliadau neu sector. Gall hyn ddylanwadu ar y modd y gwneir penderfyniadau polisi, gyda safonau gwahanol yn cael eu paratoi ar gyfer sectorau gwahanol. Mewn Rheoliadau i sectorau eraill, nodwyd yr

amgylchiadau lle nad oedd y safonau yn gymwys. Defnyddir dull gwahanol gyda Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Mae paragraff 30, Atodlen 1, rhan 3 o'r Rheoliadau yn rhestru'r gwasanaethau a'r gweithgareddau mewn perthynas ar hyn y gellir disgwyl i sefydliad gydymffurfio â hi.

Mae'r rhestr hon o weithgareddau a gwasanaethau wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau i sicrhau na all gweithgareddau masnachol tebyg i ymchwil a chyhoeddi deunydd academaidd eu dal gan safonau, yn ogystal â sicrhau na fydd y Rheoliadau felly, yn amharu ar allu'r sefydliad i gynhyrchu ei hincwm ei hun. Golyga hyn (yn unol ag hysbysiad cydymffurfio'r corff) y byddai gohebiaeth ynghylch unrhyw un o'r materion a rhestrir ym mharagraff 30 o Atodlen 1 yn cael eu dal gan safonau.

Llety penodedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg

Mae dyblygu ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg i strwythur cyfreithiol safonau'r Gymraeg yn gallu bod yn heriol oherwydd natur caeth drafftio safonau i greu dyletswyddau y gellir eu gorfodi. Un enghraifft o hyn yw mewn perthynas â llety myfyrwyr sydd wedi cael eu neilltuo yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae cynlluniau iaith Prifysgol Aberystwyth a Chaerdydd yn awgrymu ymrwymiad yn eu cynlluniau iaith i ddarparu llety penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ei gweld hi'n rhesymol na'n gymesur i bennu safonau sy'n rhoi hawl absoliwt i fyfyrwyr i lety sydd wedi'i neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Pe bai mwy o fyfyrwyr yn gwneud cais am lety Cymraeg na'r llefydd hynny sydd ar gael, mae'n anorfod y byddai'r corff methu cydymffurfio â'r fath safon.

Mae Rheoliadau newydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 sy'n gwneud darpariaeth i alluogi myfyrwyr i ddatgan diddordeb am lety sydd wedi'i neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, byddai'r corff dan ddyletswydd i hyrwyddo'r cynnig yna.

Enw'r Rheoliadau

Teitl y Rheoliadau a osodwyd yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Bwriedir i'r holl Rheoliadau a wneir o dan adran 26 o'r Mesur fod yn un gyfres barhaus, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn. Bydd hyn yn golygu bod y Rheoliadau'n haws eu trin a'i bod yn haws cyfeirio atynt, yn enwedig pan fydd Hysbysiadau Cydymffurfio'n cyfeirio at reoliadau. Ers y gwrthodwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016, gwnaed rheoliadau pellach. Yn sgil hynny, teimlir mai synhwyrol fyddai parhau gyda'r drefn rhifo dilyniannol. Yn ogystal, mi fydd yn haws gwahaniaethu rhwng y rheoliadau a'u gwrthodwyd a'r rheoliadau diwygiedig.

Cyrff yn Atodlen 6 y Rheoliadau

Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn yn rhestru'r cyrff y mae'r Comisiynydd wedi'i hawdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt mewn perthynas â'r Safonau a bennwyd. Mae Adran 43 o'r Mesur yn darparu nad yw Rheoliadau'n gallu gwneud safonau'n benodol gymwys i berson oni bai bod y safon yn gymwysadwy iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff a restrir naill ai wedi'u nodi yng ngholofn 1 y tabl yn Atodlen 6 y Mesur neu o fewn categori o bersonau a nodir yn y golofn honno, ac mae colofn 2 yn disgrifio pa safonau a allai fod yn gymwysadwy iddynt (adran 36 y Mesur).

Rhifau yn y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio'r wyddor Gymraeg, hy. (a), (b), (c), (ch) ac ati. Mae hyn yn effeithio ar safonau 27 A-D a nifer fach o is-baragraffau mewn Safonau unigol (gweler Safonau 99, 121, 134, 144, 145A, 161 ac 177. Mae hefyd yn effeithio ar:

- (1) paragraffau 30, 33, 40, 44, 45 a 59 o Atodlen 1, paragraff 2 o Atodlen 2, paragraffau 11 ac 13 o Atodlen 3; a
- (2) rheoliadau 2(5) a 3(4).

Mae'r arddull hwn yn wahanol i'r arddull rhifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Fel arfer, defnyddir y wyddor Saesneg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau, defnyddiwyd y wyddor Gymraeg. Defnyddiwyd yr arddull rhifo hwn yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch wrth groesgyfeirio. Defnyddiwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (OS 2015/996) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Y cefndir deddfwriaethol

Caiiff y Rheoliadau eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 26, 27, 39 a 150(5) o'r Mesur. Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.

Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 45). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, ac unrhyw

ddarpariaethau eraill y mae Gweinidogion Cymru'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.

Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron a'u cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (hy y weithdrefn gadarnhaol).

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaeth y Mesur gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith.

Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i orfodi personau i gydymffurfio â'r Safonau hyn.

Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol:

- i. bod safon yn benodol gymwys i'r person (hy mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
- ii. bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person;
- iii. bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
- iv. bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym.

Bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau yn cymryd lle'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd o dan Ddeddf yr Iaith 1993 ac a oedd yn cael eu monitro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg nes iddo gael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2012, a chan y Comisiynydd Iaith ers 1 Ebrill 2012.

Mae dau ddiben i'r Rheoliadau. Y cyntaf yw pennu safonau.

Mae safonau sy'n perthyn i'r categorïau canlynol wedi'u pennu yn y Rheoliadau:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau - bydd y rhain yn cael eu gosod mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.
- Safonau llunio polisi - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safonau gweithredu - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau.
- Safonau cadw cofnodion - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir

gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

Mae'r safonau wedi'u drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau
- annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn fwy
- ei gwneud yn glir i sefydliadau'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.

Mae rhai safonau'n dibynnu ar ei gilydd. Felly, mae'r Rheoliadau'n cynnwys tablau (yn Rhan 2 o Atodlenni 1 a 3) i ategu'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu sy'n nodi pa safonau eraill y bydd angen eu gosod hefyd pan fydd safon benodol wedi'i chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

Ail ddiben y Rheoliadau yw awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiadau cydymffurfio i'r sefydliadau a restrir uchod sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau a nodwyd.

Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i'r rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur, ac yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â'r safonau.

Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob sefydliad drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Nid oes raid i'r Comisiynydd ofyn bod pob sefydliad yn cydymffurfio â phob safon. Efallai y bydd sefydliad yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn sefyllfaoedd eraill, yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safon.

Apelio

Bydd unrhyw sefydliad yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol, ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun. Os na allant ddatrys yr anghydfod, mae modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys.

Sanctsiynau

Comisiynydd y Gymraeg fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur,

gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i sefydliad, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

Risgiau peidio â gwneud deddfwriaeth

Os nad yw'r Rheoliadau arfaethedig yn cael eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Bydd y Cynlluniau Iaith a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn dal yn weithredol mewn perthynas â'r sefydliadau uchod.
- Os yw'r Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd mecanwaith gorfodi ar gael os yw sefydliad yn methu â chydymffurfio â'i Gynllun.
- Ar hyn o bryd, mae Cynlluniau Iaith yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ac mae'r ymrwymïadau mewn rhai Cynlluniau yn amhenodol. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r cyhoedd yn ansicr pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau os nad yw'r Rheoliadau'n cael eu gwneud. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth rhwng sefydliadau, mae'r safonau'n benodol eu natur ac felly byddant yn lleihau ansicrwydd y cyhoedd.
- Ansicrwydd ymhlith sefydliadau ynghylch eu darpariaethau Cymraeg, yn sgil y ffaith eu bod o dan yr argraff y bydd y safonau'n disodli eu Cynlluniau. Mae nifer o sefydliadau wedi dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno'r safonau a'r drefn fonitro a gorfodi newydd.
- Dim gwelliant o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau. Byddai'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliad yn parhau i ddibynnu ar ewyllys da'r sefydliad hwnnw, heb system fonitro yn ei lle.
- Ni fydd rhan allweddol o'r Mesur yn cael ei gweithredu.

Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn adran 'Opsion 1: gwneud dim' y manteision.

Ymgynghori

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad gyda'r sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Gwnaeth Gweinidogion Cymru ystyried yn llawn y casgliadau a gyflwynodd y Comisiynydd yn yr adroddiadau ar y Safonau. Mae'r adroddiadau hynny i'w cael ar wefan y Comisiynydd.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru peidio â chynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd ar y Rheoliadau drafft. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau yn ail ymchwiliad y Comisiynydd wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses o wneud y Safonau. Ymatebodd pob un o'r sefydliadau i ymchwiliad y Comisiynydd; mae gan y rhan fwyaf ohonynt Gynllun Iaith eisoes a phrofiad o ddatblygu darpariaeth Gymraeg. Ystyriwyd yn ogystal, ymrwymïadau cynlluniau iaith y cyrff.

Yn ogystal, trafodwyd materion penodol ynghylch y Rheoliadau hyn gyda chynrychiolwyr sectorau er mwyn casglu mwy o wybodaeth am natur eu gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Colegau Cymru, UMC Cymru, Prifysgolion Cymru a'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

Yr asesiad o'r gystadleuaeth

Cynhaliwyd asesiad o'r gystadleuaeth - mae'r Rheoliadau'n annhebygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Er mwyn i'r Rheoliadau gyflawni'r nod polisi o eithrio gweithgareddau masnachol, mae rhestr sy'n nodi mewn perthynas â pha faterion y gallai'r safonau fod yn gymwys wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau. Gweler paragraff 30 o Atodlen 1 a pharagraff 2 o Atodlen 2 (Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a Safonau Llunio Polisi).

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal. Mae rhai safonau yn Rheoliadau Rhif 6 o dan y pennawd 'cyfarfodydd' (safonau 25-26B a 28-29B yn ymwneud â chyfarfodydd cymorth i fyfyrwyr yn ogystal â gweithdrefnau cwynion a disgyblu) yn gwneud darpariaethau penodol i ymateb i lefel iaith unigolion bregus. Bydd yr elfen cymorth i fyfyrwyr yn y safonau ynghylch cyfarfodydd yn cael eu gweithredu dim ond pan mai anghenion cwnsela neu faterion ieched meddwl yr unigolyn fydd ffocws y cyfarfod. Nid yw'n berthnasol i faterion sy'n ymwneud â chymorth i unigolyn sydd â nam corfforol neu ar ei synhwyrau.

Y gwahaniaeth rhwng safonau'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â chwynion, disgyblu a chymorth myfyrwyr a'r safonau ynghylch cyfarfodydd eraill yw lefel y ddarpariaeth Gymraeg (neu lefel y cyfieithu) sydd ar gael yn y cyfarfod. Yn y cyfarfodydd cwynion, disgyblu a chymorth myfyrwyr, byddai darpariaeth cyfieithu ddwy ffordd ar gael – o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg. I unigolion mewn sefyllfa neu gyflwr bregus, gallai'r broses o gyfnewid iaith yn ystod y cyfarfod gynyddu eu lefelau straen, felly mae'r cynnig i gael cyfieithu ddwy ffordd yn rhoi anghenion yr unigolion yn gyntaf. Y ffocws yma yw osgoi straen diangen i unigolyn sydd eisoes o dan straen meddyliol. Mae hyn yn hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal gan roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar neu leihau unrhyw anfantais y gall unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ei dioddef.

Mae cyfarfodydd sy'n ymwneud ag unigolion â nam corfforol neu ar eu synhwyrau wedi cael eu hystyried yn y safonau eraill ynghylch cyfarfodydd, lle mae'n bosibl eu cynnal yn Gymraeg. Os yw'r mater corfforol yn golygu bod yr unigolyn yn dioddef straen neu broblem ieched meddwl arall, yna bydd y safonau 'cymorth myfyrwyr' yn cael eu gweithredu. Ar bob cam, bydd myfyriwr, p'un a oes nam corfforol arno neu ar ei synhwyrau ai peidio, yn cael cynnig cyfarfod yn Gymraeg. Mater i Gomisiynydd y Gymraeg wrth gwrs fydd penderfynu pa safonau y mae'n ofynnol i gorff gydymffurfio â nhw, ac ym mha amgylchiadau neu feysydd.

Rydym yn fodlon bod y gweithdrefnau penodol yn y Rheoliadau drafft yn cydfynd â gofynion cydraddoldeb Gweinidogion Cymru.

Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r Mesur yn darparu nifer o gyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Er enghraifft:

- Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (adran 4 o'r Mesur) a allai argymhell yn uniongyrchol ddiwygio'r Rheoliadau, os yw'n dymuno gwneud hynny. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir ganddi y byddai'n briodol adolygu'r safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.
- Mae adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.
- Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i adroddiad o'r fath yn unol ag adran 66 o'r Mesur.

Yn amodol ar eu hysbysiadau cydymffurfio, bydd sefydliadau'n cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt (gweler safonau 166, 172 ac 178). Gallai'r adroddiadau blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cefndir

1. Gofynnwyd i'r sefydliadau a oedd yn rhan o ail ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') gymryd rhan mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru. Cafodd holiadur yr Asesiad ei ddosbarthu gyda dogfennau ymchwiliad y Comisiynydd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 7 Tachwedd 2014 a 9 Chwefror 2015, a gofynnwyd i'r sefydliadau gyflwyno eu hymatebion yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.
2. Ymatebodd 73 o'r 119 sefydliad yn ail ymchwiliad y Comisiynydd i holiadur yr Asesiad, sef cyfradd ymateb o 61%. Roedd y sefydliadau hynny'n drawstoriad da o'r gwahanol sectorau, ac yn cynnwys sefydliadau gydag ystod amrywiol o ddarpariaethau Cymraeg. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl am gostau a manteision gweithredu'r safonau yn eu sefydliadau.
3. Ym mis Mai a dechrau Mehefin 2015, cyflwynodd y Comisiynydd ei hymateb swyddogol i'r Ymchwiliad Safonau i Lywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf naw adroddiad o dan adran 64 o'r Mesur. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i (i) Adroddiadau Safonau'r Comisiynydd wrth benderfynu a ddylid arfer y pwerau yn Rhan 4 o'r Mesur (sy'n cynnwys y pŵer i bennu safonau) a sut i wneud hynny, a (ii) unrhyw gyngor a roddir gan y Comisiynydd yn ysgrifenedig.

Crynodeb o'r ymatebion

4. Mae 15 o'r 27 sefydliad (56%) a fydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Cylch 3 wedi darparu gwybodaeth ar gost eu Cynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o gost cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dyma oedd y sefydliadau: Coleg Sir Gâr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwent, Grŵp Llandrillo-Menai, Grŵp NPTC, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Y Brifysgol Agored, Career Choices Dewis Gyrfa a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cywirdeb a defnyddioldeb data

5. Mae gennym bryderon am y data a gafwyd gan y sefydliadau ac a yw'n addas ar gyfer llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir. Gwnaeth y Comisiynydd seilio ei hail ymchwiliad ar y Rheoliadau drafft a baratowyd ar gyfer y cyrff yng nghylch 1 a oedd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014. Felly, roedd yr ymatebion i'r Asesiad hefyd yn seiliedig ar y Rheoliadau hyn. Roedd rhai sefydliadau'n gyndyn o seilio eu hymateb ar Reoliadau drafft oherwydd y posibilrwydd y gallent newid, a hefyd eu bod wedi'u

paratoi'n benodol ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

6. I'w gwneud yn bosibl cynnal asesiad o gost ychwanegol cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, byddai'n rhaid i sefydliad ddarparu ffigur o'r gost o gydymffurfio gyda'i Gynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o gost cydymffurfio â Safonau. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion nid oedd modd i'r sefydliad ddarparu'r ffigurau, neu roeddent ond wedi darparu un ffigur.
7. Hyd yn oed lle darparwyd amcangyfrif o'r gost, pwysleisiodd nifer o sefydliadau ei bod yn anodd iddynt ddarparu data cywir heb wybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw. Mae'n edrych yn debyg bod rhai sefydliadau wedi darparu amcangyfrif o'r costau ar gyfer cydymffurfio â phob safon. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pob safon yn cael ei gorfodi ar un sefydliad - mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar hyn pan fydd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 45 o Fesur y Gymraeg.
8. Mae sefydliadau hefyd wedi dehongli'r cwestiynau mewn gwahanol ffyrdd. Ceir nifer o enghreifftiau lle mae sefydliadau'n nodi y bydd eu costau'n cynyddu er mwyn cyflogi aelodau ychwanegol o staff i ddelio â gweithredu gwahanol gategoriâu o safonau, er bod eu tystiolaeth yn awgrymu mai un person yn unig y byddai ei angen i wneud y gwaith hwn. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yr amcangyfrifon a ddarparwyd gan y sefydliadau hyn. Cafwyd enghreifftiau hefyd lle mae sefydliadau wedi cynnwys y gost o gyflogi staff i ddarparu gwasanaethau fel un o gostau cydymffurfio â'u Cynllun Iaith presennol. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y staff hyn wedi'u cyflogi i ddarparu gwasanaethau'r sefydliad, ac nid gwasanaethau cyfrwng Gymraeg yn unig weithiau.
9. Mae nifer o sefydliadau wedi darparu amcangyfrifon o gostau cydymffurfio sy'n sylweddol uwch na sefydliadau eraill tebyg.
10. Gyda hyn mewn cof, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar yr effaith economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol ar sefydliadau a hefyd yn cwmparu'r effaith ariannol cyn belled â phosibl. Os caiff y Rheoliadau sêl bendith y Cynulliad, caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan sefydliadau pan fydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio a'r sefydliadau mewn sefyllfa i ddarparu costau mwy cywir. Wedyn, bydd modd cynnal asesiad llawn o'r effaith ariannol.

Yr opsiynau

11. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau gyda'r Cynlluniau Iaith presennol fel y'u gweithredir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod.

12. Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn.

Costau a manteision

Costau

Opsiwn 1: Gwneud dim

13. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â Safonau newydd ond byddai disgwyl iddynt barhau i ddarparu eu Cynlluniau Iaith presennol.

14. Mae tabl 1 yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd gan y sefydliadau ynghylch cost cydymffurfio â'r Cynlluniau Iaith presennol. Mae'r ystod o gostau fwy na thebyg yn adlewyrchu'r gwahaniaeth ym maint a chwmpas y sefydliadau dan sylw ynghyd â gwahanol ffyrdd o ddehongli'r cwestiynau yn yr holiadur.

Tabl 1 - Yr ystod o gostau ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Iaith presennol

	Ymatebion	Lleiafswm (£)	Uchafswm (£)
Cyrff Rheoliadau (Rhif 6)	15	0	629,000

Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod

15. Er na phenderfynwyd eto pa safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad, mae'n debygol y bydd y sefydliadau'n ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

16. Y prif gostau rheolaidd fydd costau staffio, yn enwedig ar gyfer staff ag arbenigedd ym meysydd cyfieithu, marchnata a pholisi. Mae'n debygol y bydd angen i'r sefydliadau ehangu eu cyfleusterau cyfieithu, naill ai drwy recriwtio mwy o gyfieithwyr mewnol neu drwy anfon gwaith cyfieithu allan i ddarparwyr allanol.

17. Yn ogystal, maent yn debygol o ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ar gyfer hyfforddiant. Disgwylir i'r costau hyfforddi untro fod yn gysylltiedig â gweinyddu mewnol a gweithredu'r safonau, a bydd y costau hyfforddi rheolaidd yn canolbwyntio mwy ar yr angen posibl i ddarparu mwy o hyfforddiant statudol i staff yn Gymraeg ynghyd â hyfforddiant i staff wella eu sgiliau Cymraeg.

18. Fel y nodwyd uchod, cysylltwyd â'r sefydliadau dan sylw i ofyn iddynt ddarparu data ar gostau ar gyfer yr Asesiad hwn. Mae ein pryderon am y data a gasglwyd wedi'u hamlinellu uchod.

19. I ddangos yr amrywiaeth yn yr ymatebion, mae lleiafswm ac uchafswm y costau ychwanegol a nodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn wedi'u nodi yn y tabl isod. Er bod yr amcangyfrif o'r uchafswm yn allanolyn, roedd sefydliadau eraill yn nodi cynnydd mawr mewn costau cydymffurfio. O ran y lleiafswm, nid yw'n glir pa mor realistig yw awgrymu (cyn gwybod pa safonau fydd yn berthnasol) na fydd sefydliad yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol wrth gydymffurfio â'r safonau.

Tabl 2 - Yr ystod o gostau ychwanegol a nodwyd gan sefydliadau (£)

	Ymatebion	Lleiafswm (£)	Uchafswm (£)
Cyrff Rheoliadau (Rhif 6)	15	0	10,000,000

20. Oherwydd y pryderon uchod, ystyrir bod y data'n anghyflawn ac o bosibl yn anghyson. Yn dilyn trafodaethau ag Economegwyr ac Ystadegwyr y Llywodraeth, cytunwyd nad yw'r data a gasglwyd yn ddigon cadarn i'w ddefnyddio mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn sgil yr amrywiaeth yn y data a gyflwynwyd a'r ansicrwydd o ran pa safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad, byddai hyd yn oed nodi ffigur cyfartalog yn annhebygol o fod yn adlewyrchiad cywir o gost cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

21. Ystyriwyd cynnal cylch casglu data arall, ond penderfynwyd bod y canlyniad yn debygol o fod yn debyg ac na fyddai modd casglu'r data angenrheidiol i lunio asesiad cadarn o'r goblygiadau o ran cost nes bod gwybodaeth bellach ar gael ar ba safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad.

22. Yn ogystal â'r costau cydymffurfio a ysgwyddir gan y sefydliadau, mae Comisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg hefyd yn debygol o ysgwyddo costau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Yn olaf, bydd proses apelio'n cael ei sefydlu. Golyga hyn y bydd sefydliad sy'n credu bod y safonau a orfodwyd arno yn afresymol neu'n anghymesur yn gallu apelio i'r Comisiynydd yn y lle cyntaf, ac wedi hynny i Dribiwnlys y Gymraeg. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn yn wybyddus eto.

Manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim

23. Dyma'r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

24. Byddai gwneud dim yn golygu bod y Cynlluniau Iaith presennol, sydd wedi bod yn eu lle ers 1993, yn parhau fel ag y maent. Byddai swyddogaeth reoleiddio'r Comisiynydd yn parhau'n debyg i swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar gynlluniau a'u diwygio, sy'n llyncu llawer o adnoddau, hefyd yn parhau, ynghyd â'r drefn orfodi gyfyngedig bresennol.

Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod

25. Diben y safonau yw gwella lefel y gwasanaeth y gall aelodau'r cyhoedd ddisgwyl ei derbyn. Ar hyn o bryd (a nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi'r hysbysiadau cydymffurfio), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision cyffredinol a ddisgwylir.

26. Bydd y safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r sefydliadau ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r sefydliadau, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol ac yn arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

27. Mae 24 o'r 27 sefydliad eisoes yn gweithredu Cynlluniau Iaith ac eisoes yn gwneud nifer o'r pethau a nodwyd yn y safonau. Mae'r safonau'n adeiladu ar y Cynlluniau ac yn rhoi gofynion mwy cadarn ar y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob sefydliad unigol.

28. Ar lefel ymarferol, bydd y safonau'n cyflwyno dyletswyddau penodol a gorfodadwy yn lle'r ymrwymadau yn y Cynlluniau sydd weithiau'n amwys.

29. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol a strategol i brif-ffrydio'r Gymraeg. Bydd y 'cynnig rhagweithiol' yn allweddol i hyn, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na disgwyl i'r unigolyn ofyn amdanynt. Bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn i wella'r gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

30. Bydd gwell trefn orfodi yn cynnig dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â'r gofynion ond yn sicrhau hefyd y gellir datrys cwynion yn gynnar ac yn anffurfiol os yw hynny'n briodol.

31. Fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gofynnwyd i sefydliadau fynegi barn ar unrhyw fanteision ieithyddol, cymdeithasol neu amgylcheddol i gyflwyno safonau. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion - o sefydliadau nad oedd yn gweld unrhyw fantais i gyflwyno safonau i'r rheini a oedd yn gweld y safonau fel cyfle mewn sawl ffordd.

32. O safbwynt economaidd neu fusnes, roedd rhai sefydliadau'n gweld y safonau fel cyfle i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu gweithluoedd. Dywedwyd y gallai hyn arwain at arbedion mwy hirdymor ar waith cyfieithu

a chyfieithu ar y pryd a oedd wedi bod yn cael ei anfon allan. Byddai hefyd yn cynyddu eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a fyddai'n ddefnyddiol wrth weithio gyda sefydliadau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Nododd sawl sefydliad addysg uwch y gallai'r safonau helpu i recriwtio mwy o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn gyffredinol, yn ogystal â recriwtio myfyrwyr i gyrsiau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu eu hincwm o ganlyniad.

33. Dywedodd rhai sefydliadau y byddai'r safonau'n eu helpu i wella'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i bobl ddwyieithog a denu cwsmeriaid newydd. Soniwyd hefyd am ddarparu gwell amgylchedd gweithio i staff, a chefnogi staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.
34. Soniodd nifer fach o sefydliadau am eu cyfrifoldeb cymdeithasol i hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddweud y byddai'r safonau'n eu helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn amgylchedd busnes. Gallai hyn gynyddu hyder pobl a'u helpu i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Roedd un sefydliad yn teimlo y byddai'r safonau'n rhoi mwy o werth i'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Nododd un brifysgol y byddai'r safonau yn ei helpu i ymateb i'r galw cynyddol am siaradwyr Cymraeg yn y proffesiynau meddygol, optometreg, fferylliaeth, deintyddiaeth, gwaith cymdeithasol, gofal iechyd a'r gyfraith.
35. Yn olaf, dywedodd rhai sefydliadau fod cydymffurfio â'r Safonau'n debygol o ehangu eu cysylltiadau â'u cymunedau lleol ac annog mwy o bobl leol i gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Soniodd nifer o sefydliadau eraill am fwy o gynhwysiant cymdeithasol hefyd.

Casgliad

36. Mae'r ansicrwydd ynghylch pa safonau y bydd angen i bob sefydliad gydymffurfio â hwy yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.
37. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r sefydliadau perthnasol cyn cyhoeddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol. Mae ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol yn debygol o gael eu hystyried yn gyntaf, ynghyd â pha safonau y bydd disgwyl i sefydliadau gydymffurfio â nhw ac ym mha amgylchiadau. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r sefydliadau gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r Safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gwblhau cyn bod yr hysbysiadau cydymffurfio'n cael eu rhoi.